# LC1143

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw gwneud rhagor o newidiadau i Reoliadau TSE (Cymru) 2002, yn sgil rhagor o ddeddfu ar y pwnc gan y Gymuned.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7 –

Yn y Rheoliadau yma, mae’r gair "will" wedi’i ddefnyddio’n helaeth, yn lle’r ffurf fwy traddodiadol "shall". Mae’r ail ffurf yma i’w hosgoi am ei bod yn aml yn aneglur a yw’n cael ei defnyddio fel ffurf ddyfodol ar y ferf ynteu fel ffurf orchmynnol. Serch hynny, mae "will" yn amhriodol at ei gilydd a hynny am ei bod yn cael ei defnyddio fel arfer i fynegi’r dyfodol yn hytrach na gorchymyn. Mae fel arfer yn ofynnol i ddeddfwriaeth wneud rhywbeth yn ofynnol, ei ganiatáu neu ei wahardd, ac yn gyffredinol felly, dim ond wrth nodi canlyniadau y bydd "will" yn briodol. Fel arall "must" yw’r ferf briodol, a dylai gael ei defnyddio yma yn lle "will". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 8 yn honni ei fod yn diwygio rheoliad 29B. Cafodd rheoliad 29B ei fewnosod yn Rheoliadau TSE 2002 ar gyfer Lloegr gan Reoliadau TSE (Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2002. Dydy hi ddim yn ymddangos bod Rheoliadau cyfatebol wedi’i gwneud mewn perthynas â Chymru erioed. Oherwydd hynny, does dim rheoliad 29B a all gael ei ddiwygio ac mae’n rhaid i’r ddarpariaeth yma gael

ei dileu o’r Rheoliadau. Bydd angen i’r paragraffau dilynol (ac unrhyw groesgyfeiriadau angenrheidiol) gael eu hail-rifo. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Er mai Saesneg yw’r mewnosodiadau yn y ddwy golofn, mae paragraff rhagarweiniol y rheoliad 10A(2) newydd gryn dipyn yn hirach yn y golofn Gymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn rheoliad 14, mae’r gair "Atodlen" yn digwydd tair gwaith mewn dwy linell. Byddai’n haws dilyn hyn pe bai "i’r Rheoliadau hyn" yn cael ei ychwanegu ar y diwedd. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae colofn Gymraeg paragraff 14 i’r Atodlen yn cynnwys yr ymadrodd "the National Assembly is satisfied that", nad yw ar gael yn y golofn Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 11 Hydref 2005